# CSHB: Arddangos eich sgôr

# Manteisio i'r eithaf ar eich sgôr hylendid bwyd

Mae ein pecyn cymorth yn helpu eich busnes bwyd i fanteisio i'r eithaf ar eich sgôr hylendid bwyd. Rydym yn darparu canllawiau ar ddelweddau, adnoddau i'w lawrlwytho a baneri y gallwch eu defnyddio ar gyfer eich gwefan a'ch sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae sgôr hylendid bwyd da yn rhoi hwb i fusnes. Pan fyddwch chi'n ennill y sgôr hylendid bwyd uchaf, mae'n bryd dechrau gwneud y gorau o'r manteision. Dyma rai awgrymiadau a all eich helpu i fanteisio i'r eithaf ar eich sgôr.

## Arddangos eich sticer sgôr hylendid bwyd

Gwnewch yn si?r eich bod yn arddangos eich sticer sgôr hylendid bwyd mewn man lle gall eich cwsmeriaid ei weld yn hawdd, er enghraifft mewn ffenestr, ar eich drws, ar eich bwydlen neu yn eich ymgyrchoedd hyrwyddo. I'ch helpu, mae gennym rai delweddau y gallwch eu lawrlwytho a'u defnyddio sy'n dangos eich sgôr.

Os ydych chi wedi colli eich sticer, cysylltwch â swyddog diogelwch bwyd eich awdurdod lleol a all roi un newydd i chi.

### Cymru a Gogledd Iwerddon

Rhaid i fusnesau bwyd yng Nghymru a Gogledd Iwerddon arddangos y sticer sgôr a anfonwyd atynt. Dyna'r gyfraith. Rhaid ei arddangos wrth neu ger mynedfa eich busnes mewn man lle gall eich cwsmeriaid ei weld yn hawdd.

## Arddangos eich sgôr hylendid bwyd ar-lein

Rydym yn darparu detholiad o ddelweddau sgôr hylendid bwyd i'w harddangos ar-lein, gan gynnwys eich gwefan neu ap, ar y cyfryngau cymdeithasol, ac mewn e-byst.

Er mwyn eich helpu i gael y gorau o'ch sgôr hylendid ar-lein, rydym wedi cyhoeddi canllawiau arferion gorau ar gyfer arddangos eich sgôr ar eich gwefan ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

## Rheolau ar ddefnyddio delweddau'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

Mae delweddau'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) a logo'r ASB (y "Delweddau") wedi'u diogelu gan nodau masnach cofrestredig y DU a hawliau eiddo deallusol eraill, ac mae'r ASB yn berchen arnynt ac yn eu rheoli.

Er mwyn sicrhau nad yw’r cyhoedd yn cael eu drysu na’u camarwain, rhaid dilyn y rheolau canlynol bob amser wrth ddefnyddio’r delweddau:

- ni ddylai’r Delweddau gael eu newid na’u diwygio heb ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw – cysylltwch â HygieneRatings@food.gov.uk os hoffech addasu’r dyluniadau hyn
- mae elfennau gweledol y CSHB a logo’r ASB yn rhan annatod o ddyluniad y Delweddau – gellir eu defnyddio fel rhan o weithgarwch hyrwyddo, fel y disgrifir yn y canllawiau hyn, ac ni ddylid eu defnyddio mewn unrhyw ffordd arall heb ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw
- ni ddylid cyflwyno’r Delweddau mewn unrhyw weithgarwch a deunyddiau hyrwyddo mewn unrhyw fodd a allai awgrymu bod yr ASB yn hyrwyddo unrhyw fusnes bwyd unigol, cadwyn o fusnesau bwyd, gwefan, adnodd ar-lein neu weithgarwch arall
- rhaid i fusnesau bwyd ddefnyddio delweddau o’u sgôr hylendid bwyd gyfredol yn unig

Os na fydd busnes bwyd yn defnyddio’r sgôr gywir a ddyfarnwyd, bydd hyn yn torri’r rheolau a gall fod yn drosedd. Gallwn ni derfynu eich caniatâd ar unwaith i ddefnyddio’r Delweddau o ganlyniad i hynny neu unrhyw achos arall o dorri’r rheolau hyn.

Gallwn ni roi neu dynnu caniatâd, neu roi amodau ar gyfer unrhyw un o’r uchod, yn ôl ein disgresiwn llwyr. Cedwir pob hawl arall yn llwyr.

Gallwn ni ddiwygio’r rheolau hyn ar unrhyw adeg. Bydd diwygiadau’n cael eu rhannu ar y dudalen hon. Trwy barhau i ddefnyddio’r Delweddau, byddwch chi’n cytuno i'r diwygiadau. Os nad ydych chi’n cytuno, rhaid i chi roi'r gorau i’w defnyddio.

Pwysig
Trwy lawrlwytho a/neu ddefnyddio Delweddau’r CSHB, rydych chi’n derbyn ac yn cytuno’n ffurfiol i gydymffurfio’n llwyr â’r rheolau hyn.

## Rheolau ar ddefnyddio sticeri’r CSHB

Mae sticeri’r CSHB yn cynnwys y Delweddau, sydd wedi’u diogelu â nod masnach, ac maent yn ddarostyngedig i’r holl reolau uchod. Dim ond awdurdodau lleol sy’n gweithredu’r cynllun sy’n eu dyroddi.

Ni ddylid cael sticeri o unrhyw ffynhonnell arall. Os byddwch chi’n eu cael o ffynhonnell arall, byddai hynny’n torri’r rheolau a nodir uchod.

Dyma atgoffa busnesau bwyd bod arddangos neu ddefnyddio sgôr annilys mewn unrhyw weithgarwch neu ddeunydd hyrwyddo yn torri’r rheolau uchod a’n hawliau.  Os byddwch yn torri’r rheolau uchod a/neu ein hawliau eiddo deallusol, efallai y byddwn yn gofyn i chi roi’r gorau i ddefnyddio’r Delweddau ar unwaith, ond nid yw hynny’n ein rhwystro rhag cymryd camau cyfreithiol.

Gall hefyd fod yn drosedd o dan ddeddfwriaeth safonau masnachu, er enghraifft o dan Reoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008. Yng Nghymru, mae’n drosedd o dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013. Yng Ngogledd Iwerddon, mae’n drosedd o dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Gogledd Iwerddon) 2016.

## Lawrlwytho Delweddau’r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

Gallwch lawrlwytho’r gwaith celf ar gyfer sticeri ffenestr, logos, a ffotograffau o sticeri’r CSHB mewn ffenestri, yn ogystal â baneri gwefannau, drwy ddefnyddio’r dolenni canlynol.

Sylwer, os hoffech chi arddangos sgôr eich busnes ar-lein, dylech lawrlwytho eich sgôr hylendid bwyd i’w harddangos ar-lein neu ddefnyddio’r cod JavaScript a pheidio â defnyddio’r gwaith celf

ar gyfer sticeri ffenestr.

### Cymru

[Gwaith celf y sticer ffenestr ar gyfer y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (dwyieithog)]

[Baneri gwefan ar gyfer y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (dwyieithog)]

[Ffotograffau o sticeri'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd mewn ffenestr (dwyieithog)]

[Logos ar gyfer y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (dwyieithog)]

### Lloegr a Gogledd Iwerddon

[Gwaith celf y sticer ffenestr ar gyfer y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (Saesneg)]

[Baneri gwefan ar gyfer y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (Saesneg)]

[Ffotograffau o sticeri'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd mewn ffenestr (Saesneg)]

[Logos ar gyfer y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (Saesneg)]

# Arddangos eich sgôr hylendid bwyd ar eich gwefan neu'ch ap

Mae'r canllawiau hyn yn nodi sut i fanteisio ar eich sgôr hylendid bwyd drwy ei harddangos yn amlwg i'ch cwsmeriaid ar eich gwefan neu'ch ap.

Mae bwyd yn cael ei werthu ar-lein mewn sawl ffordd ac ar draws nifer o wahanol lwyfannau. Mae hyn yn golygu na fyddai defnyddio'r un dull a'r un maint ar gyfer arddangos sgoriau'n addas ar gyfer pob busnes.

Wrth benderfynu sut i arddangos eich sgôr hylendid bwyd ar-lein, rydym yn argymell bod lleoliad y sgôr yn bodloni'r holl egwyddorion arweiniol. Mae hyn yn golygu y dylai eich sgôr:

- ymddangos mewn man amlwg ar eich gwefan fel ei bod yn hawdd i gwsmeriaid ei gweld
- bod yn ddigon mawr fel ei bod yn hawdd i'ch cwsmeriaid ei darllen – dylech osgoi lleihau maint neu gydraniad y ddelwedd i'r fath raddau fel bod y sgôr yn mynd yn anodd ei darllen neu'n cael ei bicseleiddio
- ymddangos cyn y pwynt lle bydd eich cwsmer yn dewis neu'n archebu bwyd

Dylech ystyried y gwahanol ddulliau y gallai cwsmeriaid eu defnyddio i fynd ar eich gwefan a sicrhau bod y sgôr yn ymddangos yn amlwg, hyd yn oed os na fyddant yn cyrraedd hafan eich gwefan.

Fel canllaw cyffredinol, os gall y defnyddiwr ddewis bwyd neu osod archeb heb i'r sgôr hylendid bwyd fod yn ei faes golwg cyn hynny, ni ellir dweud bod y sgôr hylendid bwyd honno wedi'i lleoli mewn man 'hawdd i'w gweld'. Ystyriwch arddangos eich sgôr ym mhennyn eich gwefan neu ar y

fwydlen cyn dewis neu archebu bwyd.

Gallwch naill ai lawrlwytho ffeil delwedd neu ddefnyddio cod JavaScript i ddangos eich sgôr.

## Lawrlwytho eich sgôr

Mae ystod o ddelweddau sy’n dangos sgoriau hylendid bwyd wedi’u dylunio mewn gwahanol feintiau a fformatau fel y gallwch eu haddasu i weddu i ofynion arddangos ar-lein eich busnes.

Mae’r delweddau sy’n dangos y sgoriau ar gael i’w lawrlwytho, ac maen nhw ar ffurf ddwyieithog yn y Gymraeg a’r Saesneg i fusnesau yng Nghymru.

Os ydych chi wedi cofrestru eich busnes bwyd ond heb gael sgôr eto, gallwch arddangos sticer ‘aros am sgôr’ ar gyfer busnesau yng Nghymru, neu’r sticer ‘aros am arolygiad’ ar gyfer busnesau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Os byddwch yn dewis lawrlwytho ffeil y ddelwedd yn uniongyrchol, dylech sicrhau eich bod yn gwneud y newidiadau perthnasol i’r sgôr ar draws pob un o’ch llwyfannau digidol, os bydd eich sgôr yn newid.

## Defnyddio cod JavaScript ar gyfer eich sgôr

Os ydych yn arddangos eich sgôr ar eich gwefan, gallwch fewnosod y cod JavaScript ar gyfer y sgôr berthnasol yn hytrach na lawrlwytho ffeil y ddelwedd a’i storio’n lleol.

Y fantais o ddefnyddio’r cod yw mai dim ond unwaith y mae’n rhaid i chi ei wneud. Mae hyn oherwydd bod y cod JavaScript wedi’i ddatblygu i ddiweddaru’n awtomatig os bydd eich sgôr yn newid.

I gael mynediad at y cod unigryw ar gyfer eich busnes, chwiliwch am eich cofnod ar y wefan sgorio hylendid bwyd. Ar y dudalen ar gyfer eich busnes, bydd dolen ‘Arddangos y sgôr hon ar eich gwefan’. Cliciwch ar hon ac fe gewch chi’r opsiwn i gael y cod.

## CSHB ar wefannau trydydd partïon

Ar gyfer busnesau sy’n cymryd archebion trwy lwyfan neu wefan cydgasglu trydydd parti, mae’n bosib y bydd eich sgôr wedi’i harddangos ar lwyfan y trydydd parti hwnnw’n barod.

Os nad yw eich sgôr wedi’i harddangos yn gywir, dylech gysylltu â’r llwyfan cydgasglu i ddiweddaru hyn.

Dylai gweithredwyr a datblygwyr gwefannau trydydd parti adolygu Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau’r CSHB er mwyn cael cyngor mwy penodol ar sut i sicrhau bod eu llwyfannau’n bodloni gofynion arddangos y CSHB.

# Arddangos eich sgôr hylendid bwyd ar y cyfryngau cymdeithasol

Mae’r canllawiau hyn yn nodi sut i fanteisio ar eich sgôr hylendid bwyd drwy ei harddangos yn amlwg i’ch cwsmeriaid ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae llawer o fusnesau bwyd yn defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo eu cynhyrchion a chymryd archebion ar-lein.

Wrth gymhwyso’r egwyddorion arweiniol o sicrhau bod sgoriau’n ‘hawdd eu gweld a’u darllen cyn archebu bwyd’ (er enghraifft, mewn man amlwg sy’n hawdd ei weld gan gwsmer posib), dylech chi drin eich tudalennau busnes ar y cyfryngau cymdeithasol fel y prif fan gwerthu ar gyfer eich cwsmeriaid.

Yn yr un modd â safleoedd ffisegol, rydym yn argymell eich bod yn arddangos eich sgôr ar eich holl sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys lle y gellir gwneud archebion trwy wasanaeth negeseuon.

Mae yna lawer o wahanol opsiynau ar gyfer arddangos sgoriau ar-lein ar draws y cyfryngau cymdeithasol. Isod, rydym yn rhannu argymhellion ar gyfer sut y gallwch arddangos eich sgôr ar draws gwahanol lwyfannau’r cyfryngau cymdeithasol.

Mae’r lluniau ar y dudalen hon at ddibenion enghreifftiol yn unig.

# Facebook – arddangos eich sgôr hylendid bwyd

Mae rhai busnesau’n cymryd archebion trwy neges uniongyrchol ar Facebook neu drwy Facebook Marketplace.

Wrth werthu bwyd ar Facebook, dylech sicrhau:


- bod eich sgôr yn cael ei harddangos yn barhaol ac mewn modd sefydlog ar eich proffil ac y gall cwsmeriaid ei gweld pan fyddan nhw’n yn ymweld â’ch tudalen
- bod y sgôr yn ddigon mawr fel y gellir ei darllen yn hawdd ac nad yw’n lleihau’n sylweddol pan fydd cwsmer yn defnyddio Facebook ar ddyfais symudol

Gellir cyflawni hyn trwy arddangos eich sgôr fel rhan o lun clawr eich proffil Facebook, fel neges Facebook wedi’i phinio, neu yn yr hysbyseb ei hun ar Facebook Marketplace.

## Delwedd clawr Facebook

Gallwch arddangos eich sgôr yn amlwg trwy fewnosod y ddelwedd berthnasol o’r sgôr yn llun clawr eich proffil. Dylid ychwanegu hon at ochr dde’r llun clawr fel nad yw’n gwrthdaro â’ch llun proffil.

Gellir mewnosod y sgôr yn hawdd ar eich llun clawr trwy ddefnyddio offer golygu delweddau ar-lein rhad ac am ddim fel PIXLR neu Canva.





## Neges Facebook wedi’i phinio

Gallwch uwchlwytho eich sgôr fel neges unigol cyn belled â’i bod wedi’i phinio i’ch proffil fel ei bod yn ymddangos yn amlwg ar frig eich tudalen.

Bydd methu â phinio’r neges yn golygu y bydd negeseuon yn y dyfodol yn gwthio’r sgôr ymhellach i lawr ffrwd eich tudalen gan ei gwneud hi’n anodd i gwsmeriaid ddod o hyd iddi. Ni fyddai hyn yn bodloni egwyddorion arweiniol y CSHB mewn perthynas ag arddangos sgoriau.

Trwy ychwanegu neges wedi’i phinio, gallwch sicrhau bod gan eich sgôr le parhaol ar eich proffil a chynnwys unrhyw gyd-destun ychwanegol yn y testun cysylltiedig.





## Facebook Marketplace

Mae rhai busnesau bwyd a defnyddwyr unigol yn gwerthu bwyd yn uniongyrchol trwy Facebook Marketplace.

I arddangos sgôr ar Facebook Marketplace, dylech gynnwys delwedd o'ch sgôr yn yr holl hysbysebion a'r testun cysylltiedig.

Gellir gwneud hyn trwy ychwanegu'r sgôr fel troshaen at y ddelwedd gyntaf yn yr hysbyseb, neu drwy gynnwys delwedd o'r sgôr lawn yn y carwsél.

Gellir ychwanegu delwedd o'r sgôr yn hawdd at ddelwedd yr hysbyseb gan ddefnyddio offer golygu delweddau ar-lein rhad ac am ddim fel PIXLR neu Canva.




## Instagram – arddangos eich sgôr hylendid bwyd

Ar Instagram, dylech arddangos eich sgôr ar eich proffil mewn modd amlwg a sefydlog.

Yn ogystal ag arddangos llun o'ch sgôr, gallwch gynnwys disgrifiad ysgrifenedig o'ch sgôr ym mlwch bywgraffiad eich cyfrif, ond ni ddylid trin y testun fel dewis amgen yn lle defnyddio llun o'ch sgôr.

Fel Facebook, gallwch hefyd binio neges i frig eich proffil Instagram.

Os na fyddwch chi'n pinio'r neges, bydd unrhyw negeseuon yn y dyfodol yn gwthio'ch sgôr ymhellach i lawr eich tudalen. Byddai hyn yn ei gwneud hi'n anodd i gwsmeriaid ddod o hyd i'ch sgôr, ac ni fyddai'n bodloni egwyddorion arweiniol y CSHB mewn perthynas ag arddangos sgoriau.

Trwy binio neges, gallwch sicrhau bod gan eich sgôr le parhaol ar eich proffil Instagram.

## X/Twitter – arddangos eich sgôr hylendid bwyd

Wrth gymhwyso'r egwyddorion arweiniol at dudalen proffil X/Twitter eich busnes, dylech wneud y canlynol:

- arddangos eich sgôr mewn modd parhaol a sefydlog ar eich proffil
- sicrhau bod y sgôr yn ddigon mawr fel y gellir ei darllen yn hawdd ac nad yw'n lleihau'n sylweddol pan fydd cwsmer yn defnyddio X/Twitter ar ddyfais symudol


Gellir cyflawni hyn trwy arddangos eich sgôr fel rhan o ddelwedd pennyn eich proffil neu fel neges wedi'i phinio.

## Delwedd pennyn X/Twitter

Gallwch arddangos eich sgôr yn amlwg trwy ei mewnosod yn eich delwedd pennyn. Dylid ychwanegu hon at ochr dde'r ddelwedd pennyn fel nad yw'n gwrthdaro â'ch llun proffil.

Gall dewis delweddau addas i fewnosod eich sgôr ynddynt wella eich gweithgarwch hyrwyddo a'i gwneud hi'n haws i gwsmeriaid pan fyddan nhw'n mynd ar eich tudalen.

Gellir ychwanegu delwedd o'r sgôr yn hawdd gan ddefnyddio offer golygu delweddau ar-lein rhad ac am ddim fel PIXLR neu Canva.




## Neges wedi'i phinio ar X/Twitter

Gallwch ychwanegu eich sgôr fel neges unigol, ond dylai hon gael ei phinio i'ch proffil fel ei bod yn ymddangos yn amlwg ar frig eich tudalen.

Bydd methu â phinio'r neges yn golygu y bydd negeseuon yn y dyfodol yn gwthio'r sgôr ymhellach i lawr eich ffrwd gan ei gwneud hi'n anodd i gwsmeriaid ddod o hyd iddi. Ni fyddai hyn yn bodloni egwyddorion arweiniol y CSHB mewn perthynas ag arddangos sgoriau.

Trwy ychwanegu neges wedi'i phinio, gallwch sicrhau bod gan eich sgôr le parhaol ar eich proffil a chynnwys unrhyw gyd-destun ychwanegol yn y testun cysylltiedig.




# Lawrlwytho eich sgôr hylendid bwyd i’w harddangos ar-lein

Mae tri dyluniad o’r ddelwedd sgôr hylendid bwyd i weddu i ofynion arddangos ar-lein eich busnes.


Mae’r delweddau hyn sy’n dangos y sgoriau ar gael i’w lawrlwytho, a hynny ar ffurf ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) i fusnesau yng Nghymru. Maen nhw ar gael fel ffeiliau PNG a ffeiliau SVG. Os nad ydych chi’n si?r pa fersiwn i’w defnyddio, mae gan Adobe ganllaw ar y mathau hyn o ffeiliau delwedd.

Os ydych chi wedi cofrestru eich busnes bwyd ond heb gael sgôr eto, gallwch arddangos sticer ‘aros am sgôr’ ar gyfer busnesau yng Nghymru, neu’r sticer ‘aros am arolygiad’ ar gyfer busnesau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Mae delweddau wedi’u darparu ar gyfer pob sgôr, o ‘0 – Angen gwella ar frys’ i ‘5 – Da iawn’.

Gweler yr adran Rheolau ar ddefnyddio delweddau’r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd cyn lawrlwytho unrhyw ddelweddau.

## Dyluniad fersiwn 1: Dwyieithog




I'w ddefnyddio gan fusnesau yng Nghymru:

- Sgoriau Hylendid Bwyd 0-5 (dwyieithog) – Dyluniad fersiwn 1 – Ffeiliau PNG
- Sgoriau Hylendid Bwyd 0-5 (dwyieithog) – Dyluniad fersiwn 1 – Ffeiliau SVG
- Aros am Sgôr, i'w gyhoeddi'n fuan, ac wedi'i eithrio (dwyieithog) – Dyluniad fersiwn 1 – Ffeiliau PNG
- Aros am Sgôr, i'w gyhoeddi'n fuan, ac wedi'i eithrio (dwyieithog) – Dyluniad fersiwn 1 – Ffeiliau SVG


## Dyluniad fersiwn 1: Saesneg




I'w ddefnyddio gan fusnesau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon:

- Sgoriau Hylendid Bwyd 0-5 (Saesneg) – Dyluniad fersiwn 1 – Ffeiliau PNG
- Sgoriau Hylendid Bwyd 0-5 (Saesneg) – Dyluniad fersiwn 1 – Ffeiliau SVG
- Aros am arolygiad, i'w gyhoeddi'n fuan, wedi'i eithrio (Saesneg) – Dyluniad fersiwn 1 – Ffeiliau PNG
- Aros am arolygiad, i'w gyhoeddi'n fuan, wedi'i eithrio (Saesneg) – Dyluniad fersiwn 1 – Ffeiliau SVG

## Dyluniad fersiwn 2: Dwyieithog




I’w ddefnyddio gan fusnesau yng Nghymru:

- Sgoriau Hylendid Bwyd 0-5 (dwyieithog) – Dyluniad fersiwn 2 – Ffeiliau PNG
- Sgoriau Hylendid Bwyd 0-5 (dwyieithog) – Dyluniad fersiwn 2 – Ffeiliau SVG
- Aros am Sgôr, i’w gyhoeddi’n fuan, ac wedi’i eithrio (dwyieithog) – Dyluniad fersiwn 2 – Ffeiliau PNG
- Aros am Sgôr, i’w gyhoeddi’n fuan, ac wedi’i eithrio (dwyieithog) – Dyluniad fersiwn 2 – Ffeiliau SVG

## Dyluniad fersiwn 2: Saesneg




I’w ddefnyddio gan fusnesau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon:

- Sgoriau Hylendid Bwyd 0-5 (Saesneg) – Dyluniad fersiwn 2 – Ffeiliau PNG
- Sgoriau Hylendid Bwyd 0-5 (Saesneg) – Dyluniad fersiwn 2 – Ffeiliau SVG
- Aros am arolygiad, i’w gyhoeddi’n fuan, wedi’i eithrio (Saesneg) – Dyluniad fersiwn 2 – Ffeiliau PNG
- Aros am arolygiad, i’w gyhoeddi’n fuan, wedi’i eithrio (Saesneg) – Dyluniad fersiwn 2 – Ffeiliau SVG

## Dyluniad fersiwn 3: Dwyieithog




I’w ddefnyddio gan fusnesau yng Nghymru:

- Sgoriau Hylendid Bwyd 0-5 (dwyieithog) – Dyluniad fersiwn 3 – Ffeiliau PNG
- Sgoriau Hylendid Bwyd 0-5 (dwyieithog) – Dyluniad fersiwn 3 – Ffeiliau SVG
- Aros am Sgôr, i’w gyhoeddi’n fuan, ac wedi’i eithrio (dwyieithog) – Dyluniad fersiwn 3 – Ffeiliau PNG
- Aros am Sgôr, i’w gyhoeddi’n fuan, ac wedi’i eithrio (dwyieithog) – Dyluniad fersiwn 3 – Ffeiliau SVG

## Dyluniad fersiwn 3: Saesneg




I’w ddefnyddio gan fusnesau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon:

- Sgoriau Hylendid Bwyd 0-5 (Saesneg) – Dyluniad fersiwn 3 – Ffeiliau PNG
- Sgoriau Hylendid Bwyd 0-5 (Saesneg) – Dyluniad fersiwn 3 – Ffeiliau SVG
- Aros am arolygiad, i’w gyhoeddi’n fuan, wedi’i eithrio (Saesneg) – Dyluniad fersiwn 3 – Ffeiliau PNG
- Aros am arolygiad, i’w gyhoeddi’n fuan, wedi’i eithrio (Saesneg) – Dyluniad fersiwn 3 – Ffeiliau SVG

Yn ôl i’r brig